INSHOU14

Cynorthwyo tenantiaid a phreswylwyr i gymryd rhan yn y gymuned leol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo tenantiaid a phreswylwyr i gymryd rhan yn y gymuned leol. Mae'n ymwneud ag ymgynghori â nhw ynghylch eu hanghenion a'u problemau a sefydlu gweithgareddau i'w galluogi i gymryd rhan yn y gymuned leol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi i ba raddau ac ym mha ffordd y mae tenantiaid a phreswylwyr yn cymryd rhan yn y gymuned leol ar hyn o bryd a sut y gallwch gynorthwyo hyn
2. trafod a nodi anghenion y tenantiaid a'r preswylwyr, a chyfrannu at sefydlu a chynnal gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion
3. nodi dulliau ymgynghori â thenantiaid a phreswylwyr i alluogi unigolion a grwpiau i gymryd rhan
4. rhannu deilliannau ymgynghori i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gyda'r sefydliadau perthnasol yn y gymuned leol
5. cynnal cyfrinachedd a diogeledd y wybodaeth a gesglir yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data
6. sefydlu a chynnal cysylltiad â chymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr yn ogystal â rhwydweithiau eraill yn y gymuned leol
7. cynorthwyo preswylwyr i ymgysylltu â chymdeithasau a rhwydweithiau presennol o denantiaid a phreswylwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. yr ystod o sefydliadau a grwpiau sy'n gweithredu yn y gymuned leol
2. sut i ymgysylltu â thenantiaid a phreswylwyr yn y gymuned leol a'u cynorthwyo
3. y gwahanol ffyrdd y gall tenantiaid a phreswylwyr fod yn rhan o'r gymuned leol
4. sut i gynorthwyo tenantiaid a phreswylwyr i chwarae rhan fwy amlwg yn y gymuned
5. sut i sicrhau bod pawb yn cael yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu cynnwys wrth ymgysylltu â'r gymuned
6. y gwahanol ddulliau ymgynghori â'r gymuned leol
7. y rhesymau dros gyfrinachedd a therfynau cyfrinachedd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer diogelu data
8. y cymdeithasau a'r rhwydweithiau tenantiaid a phreswylwyr perthnasol yn y gymuned leol

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH225
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	tenantiaid a phreswylwyr; cydweithwyr; risg; diogelwch; cymuned leol; cymorth; agored i niwed; deddfwriaeth; dogfennaeth; ymholiadau; trefnu; datblygu; sgiliau; grwpiau llywodraethu tai; rhwydweithiau